

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER

9 Chwefror 2022

AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, S Jones, E Law-Shui Nicholson, C Griffiths, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R G Parry, G Parry, E Huws, J Earnshaw, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.01.22
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Willow Tunnel – Mae'r gwaith wedi cael ei wneud
4.2	Lon y Fynwent – Gofynnwyd i'r Clerc ddod o hyd i'r dyfynbrisiau blaenorol
4.3	Grant ar gyfer y maes Chwarae – Mae'r Cynghorydd E Law-Shui Nicholson wedi dechrau llenwi ffurflen gais am grant a bydd yn ei hanfon ymlaen at y Clerc. Mae hi hefyd wedi bod mewn cysylltiad â Menter Môn ynglŷn â grantiau. Mae gan y Cyng Sioned Jones gyfarfod 22.02.22 gyda Wickstead ynglŷn â phrisiau offer.
4.4	Lon Salem – A5 - Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â swyddog o'r Adran Priffyrdd ac maent yn bwriadu ymestyn y llinellau melyn yn y Stryd Fawr. Bydd Priffyrdd yn cysylltu â'r cyngor yn derfynol gyda'u penderfyniad terfynol. Yn ystod y cyfarfod cytunwyd y bydd angen i Tyddyn Môn gyflwyno cais am barcio ym Mro Mynydd.
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Dywedodd y Cadeirydd bod trigolion yn gofyn beth yw'r cynlluniau i ddathlu'r Jiwbilf. Cytunwyd i roi'r mater ar yr agenda nesaf i'w drafod ymhellach.
	Llofnod.....Cadeirydd 09.03.22

6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
6.1	FPL/2022/10 Plas LLechylched, Bryngwran – dim sylwadau
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
	Dim
8	MATERION ERAILL
8.1	Dathlu y Jiwbili – gweler 5
8.2	Contract torri gwair - Mae'r Clerc wedi derbyn un cais gan Rhys Williams. Cytunwyd i dderbyn ei ddyfynbris o £1693 am flwyddyn
9	MATERION ARIANNOL
	Dim
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Raffle
10.2	Prisiau claddu
	Llofnod.....Cadeirydd 09.03.22